Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Caerphilly County Borough Council

Mannau Parcio oddi ar y Stryd
(Diwygio - Rhif No 1) Gorchymyn 2021

HYSBYSIR drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, wrth weithredu ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'i holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, wedi gwneud gorchymyn a fydd â'r effaith a ganlyn: -

Diwygir Gorchymyn Cydgrynhoi (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2019 drwy:

A) Mewnosodir y diffiniadau newydd canlynol ym mharagraff 2 o'r Gorchymyn.
Ystyr "cerbyd trydan" yw cerbyd trydan y gellir ei blygio i mewn neu gerbyd trydan hybrid y gellir ei blygio i mewn."

Ystyr "cilfach barcio cerbydau trydan" yw unrhyw gilfachau sydd eisoes wedi'u dynodi neu sydd, yn ôl disgresiwn y Cyngor, wedi'u dynodi o hyn ymlaen i'w defnyddio gan gerbydau trydan er mwyn eu hailwefru drwy ddefnyddio'r mannau trydan plygio i mewn ger y gilfach barcio. Rhaid diffinio cilfach barcio cerbydau trydan gan linellau a/neu symbolau ac arwyddion sydd wedi'u lleoli o fewn ffiniau'r gilfach barcio.

B) Dylid dileu paragraff 3 (4) a'i ddisodli gyda'r canlynol:
(4) *Lle mae arwydd neu farcio arwyneb mewn cilfach barcio sy'n dangos bod y gilfach barcio:-*
(a) *Ar gael ar gyfer cerbyd person anabl yn unig;*
(b) *Ar gael ar gyfer beic modur neu fws yn unig;*
(c) *Ar gael ar gyfer cerbyd trydan yn unig; neu*
(d) *Yn gilfach neilltuedig ac nid yw ar gael i'w defnyddio gan aelodau'r cyhoedd.*

Ni fydd gyrrwr cerbyd yn caniatáu iddo aros yn y gilfach barcio honno oni bai mai dyna'r math penodedig o gerbyd neu, yn ôl fel y digwydd, gerbyd a awdurdodir gan y Cyngor i barcio mewn cilfach neilltuedig.

C) Mewnosodir y paragraff newydd canlynol yn y Gorchymyn:
18A *Rhaid parcio dim ond cerbydau trydan mewn cilfachau parcio cerbydau trydan. Bob amser, tra bo cerbyd trydan yn aros mewn cilfach barcio cerbydau trydan, bydd y gyrrwr yn achosi i'r cerbyd hwnnw gael ei gysylltu a'i wefru drwy dennyn ailwefru sydd wedi'i osod yn y gilfach barcio cerbydau trydan, neu'n gyfagos iddi, ac nid yn hirach na'r amser aros a nodir ar yr arwyddion o fewn yr amseroedd rheoledig.*

Daw'r Gorchymyn i rym ar 25/05/2021.

Os ydych yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a gynhwysir ynddo, ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, ar y sail na chydymffurfir ag unrhyw un neu ragor o ofynion y Ddeddf honno a wnaed o dani mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch wneud hynny i'r Llys o fewn chwe wythnos i'r dyddiad isod.

Dyddiedig 24 Mai 2021
Marcus Lloyd - Pennaeth Isadeiledd
Tŷ Tredomen, Parc Tredomen
Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7WF

Off-Street Parking Places
(Consolidation - Amendment No 1) Order 2021

NOTICE is hereby given that Caerphilly County Borough Council in exercise of their powers under the Road Traffic Regulation Act 1984 and all other enabling powers and after consulting with the Chief Officer of Police have made an order the effect of which is: -

The Caerphilly County Borough Council (Off-Street Parking Places) Consolidation Order 2019 shall be amended by:

A) The following new definitions shall be inserted into paragraph 2 of the Order.
"Electric Vehicle" means a Plug in Electric Vehicle or Plug in Hybrid Vehicle."

"Electric Vehicle Parking Bay" means any bays which are already designated or are, at the Council's discretion, hereafter designated for use by Electric Vehicles in order to recharge them by using the electric plug-in-points adjacent to the parking bay. An Electric Vehicle Parking Bay shall be defined by lines and / or symbols and signage located within the boundaries of the parking bay.

B) Paragraph 3 (4) should be removed and replaced with the following:
(4) *Where, within a Parking Place, there is a sign or surface marking which indicates that a Parking Bay is: -*
(a) *Available only for a Disabled Person's Vehicle;*
(b) *Available only for a motor cycle or a Bus;*
(c) *Available only for Electric Vehicle or*
(d) *A reserved bay and not available for use by members of the general public.*

The Driver of a vehicle shall not permit it to remain in that Parking Bay unless it is the specified type of vehicle or as the case may be a vehicle authorised by The Council to park in a reserved bay.

C) The following new paragraph shall be inserted into the Order:
18A *Only Electric Vehicles shall be parked in an Electrical Vehicle Parking Bay. At all times whilst an Electric Vehicle is waiting in an Electric Vehicle Parking Bay, the driver shall cause that vehicle to be connected and charging via a recharging lead installed in or adjacent to the Electric Vehicle Parking Bay and not exceeding the waiting time indicated on the signage within the regulated times.*

The Order shall come into operation on 25/05/2021.

If you wish to question the validity of the Order or of any of the provisions in it on the grounds that it is not within the powers conferred by the Road Traffic Regulation Act 1984 on the grounds that any requirement of that Act made under it has not been complied with in relation to the Order you may within six weeks of the date hereof apply to the Court for this purpose.

Dated 24th May 2021
Marcus Lloyd - Head of Infrastructure
Tredomen House, Tredomen Park
Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7WF